| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **24 MEHEFIN 2021** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2020/21** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

**Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 arhosodd gweithgaredd buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £422,000 o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £400,000 a oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

## 1. Cyflwyniad

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2020/21 gan y Cyngor llawn ar y 5ed o Fawrth 2020.

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 18 Mawrth 2020 i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cyd-fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o God CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

## 2. Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod 2020/21, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £57.0 miliwn a £110.4 miliwn.

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.20 Balans £m | 2020/21 Symudiad £m | 31.3.21 Balans £m | 31.3.21 Cyfradd % | 31.3.21 WAM* (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau & Cymdeithasau Adeiladu (heb ei ddiogelu) | 8.7 | (0.1) | 8.6 | 0.12 | 22.4 |
| Awdurdodau Lleol | 0.0 | 20.0 | 20.0 | 0.10 | 56.0 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 9.1 | 16.9 | 26.0 | 0.02 | 1.0 |
| Cronfeydd wedi'i pwlio | 8.3 | 0.6 | 8.9 | 5.13 | 365+ |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **26.1** | **37.4** | **63.5** | | |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

Mae Cod Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas. O ganlyniad, mae hyd buddsoddiad a nifer y sefydliadau sydd ar gael i adneuo arian gyda nhw wedi'i leihau yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd gan Arlingclose yn dilyn effaith y pandemic.

Daeth pwysau parhaus am i lawr ar gyfradd arian barod gyda dyddiad byr ag enillion net ar Gronfeydd Marchnad Arian anweddolrwydd isel yn agos at sero hyd yn oed ar ôl i rai rheolwyr ostwng eu ffioedd dros dro. Ar hyn o bryd nid enillion negyddol net yw achos canolog y mwyafrif o reolwyr MMF dros y tymor byr, a dylai hepgor ffioedd gynnal cynnyrch net cadarnhaol, ond ni ellir diystyru'r posibilrwydd.

Mae cyfraddau adneuo gyda'r Cyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyled (DMADF) wedi parhau i ostwng ac mae bellach i raddau helaeth oddeutu sero.

Mae £8.9m o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti cyfun strategol a chronfeydd eiddo a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a'r amcanion yn eu lle yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 5.1%, a gwarged cyfalaf heb ei gwireddu o £0.66m yn y flwyddyn ariannol yma.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn cronfeydd ecwiti ac eiddo. Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig ym mis Mawrth 2020, cafodd y cwympiadau sydyn mewn marchnadoedd bond corfforaethol ac ecwiti effaith negyddol ar werth daliadau cronfa gyfun y Cyngor ac fe'u hadlewyrchwyd ym mhrisiadau cronfa 31 Mawrth 2020 gyda phob cronfa yn cofrestru enillion cyfalaf negyddol dros gyfnod o 12 mis. Ers mis

Mawrth 2020, bu gwelliant yn sentiment y farchnad a adlewyrchir mewn cynnydd yng ngwerth cyfalaf y cronfeydd hyn ym mhortffolio'r Cyngor. Mae'r adferiad yn ecwitïau'r DU wedi llusgo y tu ôl i farchnadoedd yr UD ac Ewrop.

Oherwydd nad oes gan y cronfeydd hyn dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond maent ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, adolygir eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcanion buddsoddi tymor canolig i hir y Cyngor yn rheolaidd. Gwneid buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blwyddyn ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn fwy na llog arian parod.

**Meincnodi Buddsoddiadau**

| | **Sgôr Credyd** | **Graddfa Credyd** | **Amlygiad 'Bail-in'** | **WAM* (diwrnodau)** | **Cyfradd Dychwelyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2020 | 4.99 | A+ | 100% | 31 | 1.97% |
| **31.03.2021** | **4.73** | **A+** | **63%** | **25** | **0.77%** |
| **A.Ll Tebyg** | **4.42** | **AA-** | **34%** | **70** | **0.22%** |
| **Pob A.Ll** | **4.63** | **A+** | **63%** | **14** | **0.90%** |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

## 3. Adroddiad Cydymffurfiad

Mae’r cydymffurfiad gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

### Cyfyngiadau Buddsoddi

| | 2020/21 Uchafswm | 31.3.21 Gwir | 2020/21 Terfyn | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, heblaw Llywodraeth y DU | £7m | £7m | £8m yr un | ✓ |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £0m | £0m | £8m y grŵp | ✓ |
| Unrhyw grŵp cronfeydd o dan yr un rheolaeth | £5m | £5m | £20m y grŵp | ✓ |
| Offerynnau y mae’n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £0m | £0m | £40m y brocer | ✓ |
| Gwledydd tramor | £5m | £0m | £8m y wlad | ✓ |
| Darparwyr cofrestredig a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig | £0m | £0m | Cyfanswm o £20m | ✓ |
| Buddsoddiadau heb eu gwarantu mewn Cymdeithasau Adeiladu | £0m | £0m | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Benthyciadau i gorfforaethau heb eu radio | £0m | £0m | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Cronfeydd Marchnad Arian | £40m | £26m | Cyfanswm o £40m | ✓ |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £0m | £0m | Cyfanswm o £20m | ✓ |

## 4. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae’r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio’r mesuryddion canlynol:

**Diogelwch**: Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartal wedi’i bwyso ar gyfer y portffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi’i bwyso yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb ei graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar y risg canfydded.

| | **31.3.21 Gwir** | **2020/21 Targed** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartal y portffolio | 4.73 | Sgôr o 6 neu is | ✓ |

**Hylifedd**: Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael er mwyn gallu cwrdd â thaliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol**.**

| | **31.3.21 Gwir** | **2020/21 Targed** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £54.6m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw’r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog a fynegir fel cyfran o’r prif swm net a fenthyciwyd, yn:

| | **31.3.21 Gwir** | **2020/21 Terfyn** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £460,757 | £324,000 | x |
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £5,096 | £23,000 | ✓ |

Fel yr adroddwyd i’r Pwyllgor Pensiynau yn yr Adolygiad Canol Blwyddyn ar 21 Ionawr 2021, ers gosod y dangosydd hwn mae’r rhagolygon economaidd ar gyfer cyfraddau llog wedi newid yn llwyr gyda dyfodiad y pandemig byd-eang. Y gyfradd llog ar gyfartaledd a dderbyniwyd ar falansau tymor byr oedd 0.07% yn ystod y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2020, gyda buddsoddiad mwy diweddar yn cael ei wneud mor isel â 0.01%. Gosodwyd yr arwydd hwn pan oedd y gyfradd sylfaenol yn 0.75% ac felly mae’n rhesymol bod 'na gymaint o effaith i gynnydd o 1% ac mae’n dangos yr effaith difrifol mae’r pandemig wedi cael ar enillion buddsoddiadau.

**Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

| | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|
| Gwir brifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £10m | £0 | £0 |
| Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfiwyd** | ✓ | ✓ | ✓ |